# Profiad Personol

Mae cynnwys a chydweithio yn ddau o'r Pum Ffordd o Weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er bod hyn hefyd yn cyfeirio at ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae cyfrifoldeb ar y sector iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i gynnwys a chydweithio â chleifion a'r cyhoedd i wella lles y boblogaeth yng Nghymru.

Gall pobl â phrofiad personol gynnig persbectif unigryw ar ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn seiliedig ar brofiad go iawn. Gallant ddweud wrthym yn uniongyrchol sut deimlad yw profi mater neu wasanaeth penodol.

Yn y cylchlythyr hwn, mae'r Hwb yn rhannu arfer gorau o ran sut mae gwasanaethau yn ein rhanbarth wedi defnyddio profiad personol fel ased o amrywiaeth o safbwyntiau ac yn darparu gwybodaeth bellach i helpu i gynnwys profiad personol mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

## Cyflogi pobl sydd â phrofiad personol

Un o'r ffyrdd y gallwn ymgorffori pobl â phrofiad personol yn ein gwaith yw trwy gyflogi pobl sydd â phrofiad personol yn ein gwasanaethau.

### Stori Stacey a Joanna

Gweithiodd yr Hwb gyda Thîm Anableddau Dysgu Cymunedol Caerdydd a'r Fro i adrodd stori Stacey a Joanna, dau unigolyn ysbrydoledig ag anabledd dysgu sydd wedi cael eu cyflogi i'r gwasanaeth. Mae'r ffilm yn dangos sut y gall cyflogi pobl sydd â phrofiad personol fod o fudd i'r unigolion a'r gwasanaethau y maent yn cael eu cyflogi iddynt. Mae'r ffilm wedi'i rhannu'n genedlaethol yn y gobaith y bydd yn ysbrydoli rolau tebyg ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn sicrhau gwell canlyniadau i boblogaeth Cymru.





Yn dilyn rhyddhau'r ffilm, cyfarfu Joanna a Stacey â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gofal Sylfaenol a Gofal Canolraddol, sy'n gyfrifol am ariannu'r swyddi, i drafod y rolau yn fanylach a deall ymhellach yr effaith y gall rolau profiad personol ei chael yn ein system iechyd a gofal cymdeithasol.

*'Mae Stori Stacey a Joanna yn amlygu sut y gall y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad gwerthfawr pobl sydd â phrofiad personol yn ein gwaith.* '- Cath Doman, Cyfarwyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Gwyliwch yma**

## Sut i gyflogi pobl sydd â phrofiad personol

Gan ddefnyddio adnoddau a llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes, mae'r Hwb wedi llunio canllaw hawdd i helpu i egluro'r heriau, rhwystrau a galluogwyr cyffredin sy'n gysylltiedig â chyflogi pobl â phrofiad personol. Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys mwy o wybodaeth am yr agweddau cyllido a recriwtio ar rolau Stacey a Joanna.

**Ddarllen mwy**

## Defnyddio profiad personol i achub bywydau



Gwenwyno damweiniol gan gyffuriau yw un o brif achosion marwolaeth y gellir ei hatal ymhlith pobl sy'n defnyddio opioidau yn y Deyrnas Unedig o hyd. Mae mynediad hawdd at ymyriadau lleihau niwed, fel dosbarthu Naloxone, yn hanfodol i atal gwenwyno angheuol gan gyffuriau.

Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro wedi gweithredu rhaglen cymheiriaid o wirfoddolwyr sydd â phrofiad personol o ddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau, er mwyn gwella ei strategaethau atal gwenwyno â chyffuriau. Nod y rhaglen yw cefnogi ac eirioli dros unigolion sy'n defnyddio sylweddau, gan roi cwmpas a chapasiti ychwanegol i raglenni a gomisiynir eisoes.

**Ddarllen mwy**

## Profiad personol yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol



Mike yw un o’r ddau gynrychiolydd gofalwyr di-dâl ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Rhannodd ei brofiad o'r rôl, ei heriau a'r hyn y mae'n gobeithio ei weld yn nyfodol ein system iechyd a gofal cymdeithasol.

*“Allwch chi ddim curo profiad personol .. mae'n golygu bod gennych y profiad uniongyrchol hwnnw o lygad y ffynnon a’r wybodaeth i fod yn arloesol. “*- Mike O'Brien, Cynrychiolydd Gofalwyr Di-dâl

**Ddarllen mwy**

## Ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad personol

Gall ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad personol gael effaith gadarnhaol ar y gwaith a wnawn a gall lywio newidiadau i wasanaethau a'r ffordd yr ydym yn gweithio. I wneud hynny'n ystyrlon, mae'n bwysig deall beth sy'n gweithio'n dda, beth allai'r heriau a'r rhwystrau fod a sut i'w goresgyn. Mae'r Hwb wedi creu canllaw i roi lle i chi ddechrau.

**Ddarllen mwy**

Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Co-production Network for Wales

Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn gymuned o bobl sy'n credu yng ngwerth cydgynhyrchu a chynnwys dinasyddion. Mae aelodaeth yn agored i bawb sydd â diddordeb mewn cydgynhyrchu mewn gwasanaethau cyhoeddus

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi creu llwyfan cymuned ymarfer ymgysylltu ar gyfer ymarferwyr sy'n gwneud gwaith ymgysylltu yn y rhanbarth. Fe'i cynlluniwyd ar y cyd gan ymarferwyr gyda'r nod o sefydlu dull cyffredin, cydgysylltiedig a fydd yn cynyddu ystod y lleisiau a glywir.

**Edrychwch ar ein gwefan i weld mwy o'n gwaith neu cysylltwch â ni drwy Dylan.John4@wales.nhs.uk**